Cyfran y datblygiadau tai sy'n cyfrannu'r tai fforddiadwy a geisir gan yr awdurdod.	75% o ddatblygiadau i gyflawni neu ragori ar y gyfradd gyfrannu; 95% o ddatblygiadau i gyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at dai fforddiadwy.	10% ar dargedau.	Cyfrannodd 86.2% o gynigion tai Dai Fforddiadwy. (50 allan o 58 o geisiadau lle y gellid bod wedi ceisio cyfraniadau Tai Fforddiadwy.)	89.1% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (57 allan o 54 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).	90% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (54 allan o 60 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).	89.4% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (42 allan o 47 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).	86.1% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (31 allan o 36 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).	87.8% gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (41 allan o 46 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).	Roedd 79% o'r cynnig tai yn darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (33/42 o geisiadau lle gellid bod wedi gofyn am gyfraniadau Tai Fforddiadwy).	Roedd 78% o'r cynnig tai yn darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (25/32 o geisiadau lle gellid bod wedi gofyn am gyfraniadau Tai Fforddiadwy).	Roedd 81% o'r cynnig tai yn darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (26/32 o geisiadau lle gellid bod wedi gofyn am gyfraniadau Tai Fforddiadwy).
(Craidd) Dwysedd tai cyfartalog a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd.	30 ayh mewn Trefi Ffocws a 25 ayh mewn aneddiadau Gwledig	Ymchwiliad pellach os yw'n llai na 25 ayh mewn ardaloedd trefol ac yn llai nag 20 ayh mewn ardaloedd gwledig.	Trefi Ffocws 29 ayh	Trefi Ffocws 29 ayh	Trefi Ffocws 37 ayh	Trefi Ffocws 31 ayh	Trefi Ffocws 31 ayh	Trefi Ffocws 24ayh	Trefi Ffocws 35ayh	Trefi Ffocws N/A	Trefi Ffocws N/A ⁷
			Aneddiadau Gwledig 27 ayh	Aneddiadau Gwledig 24 ayh	Aneddiadau Gwledig 26 ayh	Aneddiadau Gwledig 22 ayh	Aneddiadau Gwledig 24 ayh	Aneddiadau Gwledig 40 ayh	Aneddiadau Gwledig 24ayh	Aneddiadau Gwledig N/A	Aneddiadau Gwledi 23.23ayh

⁷ Nid oedd unrhyw geisiadau newydd ar ddyraniadau tai o dan GN.27 yn ystod y flwyddyn.

Dangosydd CDLI	Targed	Trothwy	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Dwysedd cyfartalog tai a ganiatawyd ar hap-safleoedd	30 ayh mewn Trefi Ffocws a 25 ayh mewn aneddiadau Gwledig	Ymchwiliad pellach os yw'n llai na 25 ayh mewn ardaloedd trefol ac yn llai nag 20 ayh mewn ardaloedd gwledig.	Trefi Ffocws 92 ayh Aneddiadau Gwledig 20 ayh	Trefi Ffocws 60 ayh Aneddiadau Gwledig 19 ayh	Trefi Ffocws 40 ayh Aneddiadau Gwledig 24 ayh	Trefi Ffocws 62 ayh Aneddiadau Gwledig 27 ayh	Trefi Ffocws 38 ayh (74% tir llwyd) Aneddiadau Gwledig 21 ayh (70% tir llwyd)	Trefi Ffocws 26.9 ayh (67% tir llwyd) Aneddiadau Gwledig 18 ayh (51% BF)	Trefi Ffocws 37 ayh Aneddiadau Gwledig 20 ayh	Trefi Ffocws 38 ayh Aneddiadau Gwledig 35.9 ayh	Trefi Ffocws 25.92 ayh Aneddiadau Gwledig 31 ayh ⁸
Nifer y safleoedd a leiniau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr.	40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015.	Llai na 40 wedi'u caniatáu erbyn diwedd 2015.	15 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (12 ar safleoedd preifat, tri ar safle cyhoeddus a neilltuwyd). 5 o leiniau wedi'u caniatáu ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu (11/0093/PA, 13/0345/PA a 13/0790/PA).	19 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. 3 safle preifat wedi'u caniatáu 2014-2015 (13/0429/PA, 14/0400/PA a 13/0744/PA).	26 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. 1 safle preifat wedi'i ganiatáu 2015-2016 (5 llain – 15/0657/PA) ac un estyniad wedi'i ganiatáu i safle preifat sy'n bodoli eisoes (2 lain ychwanegol - 14/0448/PA).	35 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad 2010 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. 1 safle preifat newydd wedi cael caniatâd (1 llain) (15/1034/PA), tystysgrif defnydd Cyfreithlon wedi'i chyhoeddi ar gyfer safle preifat â 4 llain (15/1269/CL), ac estyniad (16/0475/PA) i safle presennol (4 llain)	38 o leiniau wedi'u caniatáu ers Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Caniatawyd 2 o leiniau ychwanegol ar safle presennol (16/1244/PA), a chyhoedwyd caniatâd parhaol ar gyfer safle dros dro (17/0485/PA).	Caniatawyd 51 o leiniau ac 1 iard i siewmyn teithiol ers GTANA 2010	Caniatawyd 53 llain ac 1 iard i siewmyn teithiol ers GTANA 2010	Caniatawyd 57 llain ac 1 iard i siewmyn teithiol ers GTANA 2010	Caniatawyd 57 llain ac 1 iard i siewmyn teithiol ers GTANA 2010
Cynnydd tuag at nifer y safleoedd a neilltuwyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr.	40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015.	Llai na 40 wedi'u caniatáu erbyn diwedd 2015.	Caniatâd cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer 3 yn Chwarel y Castell.	3 llain wedi'u darparu yn Chwarel y Castell.	Cais i ddadgofrestru tir comin yng Nghilgeti yn llwyddiannus.	Disgwylir cais cynllunio yng Nghilgeti erbyn diwedd 2017	Mae cais cynllunio ar gyfer 12 o leiniau yng Nghilgeti yn cael ei ystyried yn ystod yr AMB hwn.	Rhoddwyd caniatâd am 12 o leiniau yng Nghilgeti (17/0790/PA) ac mae cyllid ar gael.	Estyniad wedi'i ddyrannu i safle Cilgeti Kingsmoor yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.	Disgwylir i estyniad wedi'i ddyrannu i safle Cilgeti Kingsmoor gael ei gwblhau yr hydref hwn yn dilyn proses ail-dendro.	10 llain ychwanegol wedi'u cwblhau yn Kingsmoor Cilgeti ym mis Chwefror 2022.

⁸ Mae'r Dwysedd Aneddiadau Gwledig yn arbennig o uchel eleni oherwydd safle ailddatblygu yn nhref Arberth. Os ydych yn eithrio Arberth mae'r canlyniadau yn 17.5 dph

Dangosydd CDLI	Targed	Trothwy	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Diwallu angen newydd sydd wedi codi (ar ôl 2014) erbyn diwedd 2019 (Lefel yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a baratowyd ddiwedd 2014).	Cafodd yr angen a nodwyd yn arolwg 2014 ei ddiwallu erbyn diwedd 2019.	Yr angen a nodwyd heb ei ddiwallu erbyn 2019. Disodlwyd yr arolwg gan 2015 GTAA. Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu GTAA 2019 drafft sy'n dal gyda Llywodraeth Cymru ac yn aros am gael ei Awdurdodi (Gorffennaf 2022). Mae lefel yr angen yn nrafft 2019 yn cael ei ostwng, yn unol â thueddiadau tymor hwy.									
Diwallu angen newydd sydd wedi codi (2016) erbyn diwedd 2021 Lefel yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (a baratowyd ddiwedd 2016)	Yr angen a nodwyd yn arolwg 2016 wedi ei ddiwallu erbyn diwedd 2021.	Dim trothwy	Dd/G	Dd/G	Mae Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei baratoi ond nid yw ar ffurf derfynol eto.	Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru 2016.	Nododd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yr angen am 32 o leiniau a 2 iard siewmyn teithio. Cyfanswm o 19 o leiniau wedi'u caniatáu ers yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.	Nododd GTAA 2015 bod angen 32 o leiniau ynghyd â 2 fuarthau ar gyfer pobl sioeau teithio. Rhoddwyd caniatâd am gyfanswm o 31 o leiniau ac 1 buarth pobl sioeau teithiol	Nododd GTAA 2015 bod angen 32 o leiniau ynghyd â 2 fuarthau ar gyfer pobl sioeau teithio. Rhoddwyd caniatâd am gyfanswm o 33 o leiniau ac 1 iard siewmyn teithiol, ac mae 1 iard sefydledig y tu allan i orfodaeth ar gyfer elfennau o'r datblygiad. Mae'r angen wedi'i ddiwallu.	Mae GTAA 2019 yn parhau i fod yn fersiwn drafft. Mae'r angen sy'n codi o fewn GTAA 2015 wedi'i fodloni.	Mae GTAA 2019 yn parhau i fod yn fersiwn drafft. Mae'r angen sy'n codi o fewn GTAA 2015 wedi'i fodloni.
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i nod diogelu Polisi GN.33.	0	3 dros 3 blynedd.	0	0	2 (14/1103/PA, 15/0132/PA)	0	0	0	0	0	0

Crynodeb o'r Amcan Strategol: Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai a gwasanaethau lleol (D) (Gweler hefyd ddangosyddion ar gyfer cynnal a gwella'r economi wledig a threfol):

Tai

Ym mis Mawrth 2020, di-rymodd Llywodraeth Cymru Astudiaethau o Argaeledd Tir ar y Cyd TAN 1 a gwnaeth ddiwygiadau i adran Cyflenwi Tai Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn dileu'r polisi pum mlynedd ar gyfer cyflenwi tir ar gyfer tai ac yn ei ddisodli â datganiad polisi sy'n ei gwneud yn glir mai'r taflwybr (trajectory) tai fydd y sail ar gyfer monitro. Mae'r AMB hwn yn cynnwys gwybodaeth am daflwybr Tai'r CDLI fel Atodiad 2 fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru ac yn unol â'r canllawiau a nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3. Mae'n dangos bod y cyflenwad tir sydd ar gael yn ddigonol i gyflawni'r adeiladu a ragwelir. Mae'n nodi bod y nifer cronnus o dai newydd a gwblhawyd wedi bod yn is na'r gyfradd adeiladu flynyddol a ragwelwyd. Aseswyd y wybodaeth hon fel rhan o Adolygiad CDLI 2 ac (ochr yn ochr â gwybodaeth ddemograffig) mae wedi arwain at ofyniad is am dai ar gyfer CDLI 2 o'i gymharu â'r CDLI cyfredol.

Adeiladwyd 338 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Y gyfradd adeiladu 10 mlynedd ar gyfartaledd rhwng 2009-2019 (cyn-Covid) oedd 379 y flwyddyn, felly mae'r arolwg diweddaraf yn awgrymu bod adeiladu tai yn 2021-22 ychydig yn is na'r cyfartaledd hanesyddol cyn-Covid. Cwblhawyd cyfanswm o 3805 o anheddau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae gwaith dadansoddi a gwblhawyd fel rhan o Adolygiad o'r Cynllun yn awgrymu bod yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r targed CDLI yn uchel o'i gymharu ag amcanestyniadau mwy diweddar a bod lefelau mudo dros y 5 mlynedd diwethaf wedi bod islaw lefelau hanesyddol. Mae hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar gyfraddau adeiladu lleol. Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach o'r angen am dai fel rhan o Adolygu'r Cynllun.

Cyflawnwyd y targed o 15% o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau ond nid ar gyfer caniatadau eleni (18%). Ni chyrrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.

O ran y safleoedd tai strategol a nodwyd yn y Cynllun mae'r 3 wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer adolygiad. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 729 o gartrefi preswyl ar y safleoedd a nodwyd yn Slade Lane North a Slade Lane South yn Hwlfordd yn AMB 1. Fel y nodwyd yn AMB 2, mae'r ymgeisydd wedi cyflawni'r holl amodau cyn cychwyn mewn perthynas â mynediad ac mae'r gwaith mynediad i'r safle bron â'i gwblhau. Mae'r Awdurdod wedi derbyn pob cyfraniad ariannol cyn cychwyn sy'n ofynnol o dan y cytundeb S.106. Mae cytundeb Adran 278 wedi'i gwblhau ac mae'r Awdurdod wedi derbyn bond. Mae'r bond carthion a'r cytundeb seilwaith cyfleustodau wedi'u cwblhau ac mae'r bondiau wedi cael eu talu. Mae tir wedi cael ei drosglwyddo at ddibenion

addysg hefyd. Gwnaed cais adran 73 i ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl ar elfen breswyl y cynnig. Penderfynwyd ar gais pellach mewn cysylltiad â'r safle hwn yn AMB blwyddyn 5 – 17/0520/PA, cais amrywio amodau a gymeradwywyd ar 12/0829/PA, a gymeradwywyd yn amodol ar 13/10/17. Cymeradwywyd Cais Materion Neilltuedig 18/1040/PA am 115 o anheddau ar 26/7/19. Mae cais wedi'i wneud i addasu'r cytundeb cyfreithiol adran 106 sy'n perthyn i'r safle hwn ond roedd heb ei benerfynu ar adeg ysgrifennu (Awst 2022). Mae'r Mynegai Fforddiadwyedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys y cyfnod hyd at 31ain Mawrth 2021. Mae'r casgliadau allweddol wedi'u cofnodi yn y tabl uchod ac mae manylion pellach ar gael yn yr adroddiad ei hunan, sydd ar gael i fwrw golwg drosto ar wefan y Cyngor. Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno ar gyfer Shoals Hook Lane yn Hwlfordd. Yn Abergwaun, mae gan safle Maesgwyn ganiatâd sy'n bodoli eisoes ar ran o'r safle. Cafodd cais cynllunio pellach, i ganiatáu estyniad amser i gyflwyno materion a gadwyd yn ôl, ei gymeradwyo'n amodol yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Llofnodwyd adran 106 ar 4 Awst 2016. Roedd cais am ddatblygiad tai 100% fforddiadwy ar y rhan o'r safle ar bwys Clos-y-Bigney yn dal heb ei benderfynu ar adeg ysgrifennu (Awst 2022). Ar gyfer y datblygiadau preswyl hynny lle llwyddodd CSP i geisio cyfraniadau tuag at dai fforddiadwy gwnaeth hynny ar 81% (26 o'r 32 o geisiadau cynllunio). Nid oedd CSP yn medru chwilio am gyfraniadau at dai fforddiadwy ar gyfanswm o 6 chais, 2 gais LCC, 2 addasiad, 1 COU ac roedd A. 106 eisoes wedi'i gytuno. Cafodd cyfanswm o 29 o Dai Fforddiadwy ganiatâd cynllunio. O'r rhain cafodd 5 o dai fforddiadwy eu negodi drwy gytundebau cyfreithiol adran 106, 23 safle Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, 1 Fenter Wledig gyda chyfraniadau ariannol o ychydig dros £160,256.00 wedi'u llofnodi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae CSP yn parhau i fonitro nifer y caniatadau a roddir ar safleoedd eithriedig gydag 11 o dai fforddiadwy yn cael caniatâd ar un safle eithriedig yn ystod cyfnod AMB9. Yn unol â'r ymrwymïadau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a'r AMB, mae'r CSP yn parhau i fonitro prisiau tai a dangosyddion eraill er mwyn asesu a oes angen newid lefel y cyfraniadau o Dai Fforddiadwy a nodwyd fel targedau dangosol. Mae gwaith monitro wedi nodi nad oes angen unrhyw newid a bod targedau'r Cynllun dal yn addas (gweler Mynegai Fforddiadwyedd CDLI). Adolygwyd y Mynegai Fforddiadwyedd ddiwethaf yn 2018 (gan ymgorffori'r data o 1 Ebrill 2016 i 31 Rhagfyr 2017 am y tro cyntaf) ac mae adolygiad pellach ar y gweill yn awr. Ond ni fydd y canlyniadau ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn yr AMB hwn (blwyddyn 8). Mae'r mater yn cael ei adolygu hefyd ar y cyd â pharatoi CDLI 2. Er bod lefel yr angen am Dai Fforddiadwy yn dal i fod yn uchel yn Sir Benfro, mae'r Cynllun yn llwyddo i sicrhau lefelau uchel o Dai Fforddiadwy. Paratowyd Arolwg o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddarau yn ystod 2021 a bydd yn llywio'r Adolygiad o'r Cynllun. Mae rhanddeiliaid wedi gofyn am i'r AMB gynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r Awdurdod wedi gwario unrhyw symiau cyfnewid ar gyfer Tai Fforddiadwy. Yn ystod y flwyddyn 2021-2022 nodwyd 8 cynllun a thalwyd £110.129.00 i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr awdurdod ac i CSP am gaffaeliadau, o gymharu â 5 cynllun a £62,574.00 2020-2021, 2019-2020 lle nodwyd 6 cynllun a £157,404.17, 5 cynllun a £134,298 yn 2018-2019 £125,291 yn 2017-2018, 2016-2017 – nodwyd pedwar cynllun a thalwyd £107,909.96 i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr Awdurdod O ran dwysedd, ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau ar safleoedd trefol a neilltuwyd yn ystod cyfnod AMB 9, fodd bynnag roedd y rhai a gymeradwywyd ar safleoedd a neilltuwyd a safleoedd ar hap mewn ardaloedd trefol a gwledig ychydig yn is na'r targed ond maent yn dal i fod o fewn paramedrau derbynoldeb felly nid oes angen unrhyw ymchwiliad pellach. Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr Cymeradwywyd yr Asesiad 2015 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2016, a nododd fod angen 32 o leiniau rhwng 2015 a diwedd 2020, sef llai o angen na'r hyn a nodwyd mewn asesiadau blaenorol. Mae'r angen is hwn yn awgrymu bod nifer y lleiniau preifat sy'n cael caniatâd yn cael effaith ar lefel angen yn Sir Benfro. O ran lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, ers asesiad y GTAA yn 2015 (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru 2016), rhoddwyd caniatâd am 373 o leiniau crwydriad, gan gynnwys caniatâd am 12 o leiniau'n darparu estyniad i safle'r cyngor yn Kingsmoor Cilgeti (ref: 17/0790/PA). Mae'r gwaith datblygu wedi'i gwblhau ac a weithredodd y caniatâd cynllunio (17/0790/PA), gyda 10 llain wedi'u cyflwyno. O ran y CDLI, mae'r dyraniadau a'r polisïau presennol yn ei gwneud yn bosibl i safleoedd preifat a safleoedd a neilltuwyd gael caniatâd ac ar y sail hon nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Mae datblygiad wedi dechrau i weithredu'r caniatâd (17/0790 /PA), gydag oedi oherwydd Covid 19. Cyflwynwyd GTAA wedi'i ddiweddarau i LIC yn Hydref 2019, ond nid yw wedi'i gymeradwyo eto oherwydd prinder staff o fewn Llywodraeth Cymru. Ar ôl iddo gael ei gytuno, bydd y ddogfen hon yn llywio Adolygiad y Cynllun.											
Amcan Strategol: Sicrhau rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B) a Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J)											
Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1, sef nod diogelu maen prawf 3.	0	Mwy na 4 caniatâd o'r fath mewn 4 blynedd.	6	12	1	0	0	0	0	0	1 ⁹
Nifer y caniatadau tai o fewn Ffiniau Aneddiadau fel canran yr holl ganiatadau tai.	98%	5% y flwyddyn y tu allan i ffiniau aneddiadau dros 4 blynedd.	94%	96.9%	93%	93%	95.5%	95.7%	95.2%	92.1%	93%

⁹ 20/0732/PA Ailddatblygiad Dociau Penfro – Cyfiawnhawyd o ystyried yr angen cenedlaethol am weithgareddau cysylltiedig â phorthladdoedd gan gynnwys gweithgynhyrchu dyfeisiau ynni morol, gweithgynhyrchu cychod a thrwsio a chodi peiriannau.

Dangosydd CDLI	Targed	Trothwy	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Nifer y caniatadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisi SP16.	0	Mwy na 4 mewn 4 blynedd.	0	0	0	0	4 (Penderfynwyd ar bob un ohonyn drwy apêl)	0	0	0	0
(Craidd) Faint o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau) nas neilltuwyd yn y Cynllun.	Dim (Dim targed)	Dim (Dim trothwy)	365.07 hectar	299.8 hectar	41.14 hectar	62.52ha	46.339Ha	15.18ha	17.63ha	15.6ha	15.4ha
Faint o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiadau y tu allan i ffiniau aneddiadau.	Dim (Dim targed)	Dim (Dim trothwy)	338.98 hectar	280.64	32.02 hectar	50.22Ha	28.49Ha	17.43ha	16.5ha	19.88	54.57ha ¹⁰
Colli Mannau Agored o ganlyniad i ddatblygiadau (hectarau) nas neilltuwyd yn y Cynllun.	Dim (Dim targed)	Dim (Dim trothwy)	0	0.15 hectar (13/1092/PA)	0	0	0	0	0	0	0
Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i nod Polisi GN.37.	Dim	Mwy na 4 mewn 4 blynedd.	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Nifer y caniatadau cynllunio, caniatadau adeilad rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38.	Dim	Mwy na 4 mewn 4 blynedd.	3	12	2	0	1	0	1	0	2
(Craidd) Faint o ddatblygiadau newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (maes llwyd), ailddatblygiadau ac addasiadau) wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau a ganiatawyd.	Dim targed	Dim trothwy	80.75 hectar (18%)	46.87Ha%)	291.05Ha%)	115.50Ha (63%)	57.51Ha%)	59.87ha (82%)	124.77ha (73%)	61.97ha (82%)	116.37ha (86.62%)
(Craidd) Faint o gapasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd	Dim targed	Dim trothwy	3.65 hectar	4.20 hectar	3.32 hectar	1.11Ha	1.00Ha	1.20 ha	5.05ha	0.56ha	3.64 ha, ond yn nodi, ym mhob achos, bod y caniatadau newydd yn perthyn i gydsyniadau cynharach.
Cynnydd tuag at ddod o hyd i Safle Amwynder Dinesig newydd i wasanaethu de-ddwyrain Sir Benfro.	Darparu safle newydd erbyn 2015.	Dim caniatâd cynllunio ar waith erbyn mis Ebrill 2014 ac os nad yw'r safle yn weithredol erbyn 2015.	Rhodddwyd cymeradwyaeth amodol i Devonshire Drive, ger New Hedges 17/07/14 (13/1110/PA)	Rhodddwyd cymeradwyaeth amodol i gyfleuster newydd ar 17/07/14 (13/1110/PA) yn	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.

				weithredol o Basg 2015.							
Winsel – Estyniad i'r safle amwynder dinesig	Cynllun wedi'i weithredu	Dim caniatâd cynllunio ar waith erbyn mis Ebrill 2014 ac os nad yw'r safle yn weithredol erbyn 2015.	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 0.23 hectar o'r safle a neilltuwyd ar 08/05/13.	Mae'r safle yn gwbl weithredol.	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Bodlonwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.	Atebwyd gofyniad y dangosydd hwn.

Crynodeb o'r Amcan Strategol: Sicrhau rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B) a Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J):

Roedd 93% o ganiatadau a roddwyd ar gyfer tai o fewn ffiniau aneddiadau yn is na'r targed o 98%, ond yn adlewyrchu cynigion derbyniol megis y rhai am weithwyr hanfodol TAN6. Mae'r trothwy ar gyfer ymchwilio pellach wedi'i gyrraedd. Mae asesiad o ffiniau aneddiadau a pholisïau ar gyfer datblygiad gwledig yn mynd rhagddo fel rhan o ddatblygiad CDLI2.

Mae'r arwynebedd o dir maes glas a ganiatawyd ar gyfer datblygiad nad yw wedi'i neilltuo fel arall yn dal i fod yn uwch na'r targed o 0ha. Mae'r arwynebedd o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiad mewn lleoliadau cefn gwlad yn 54.57ha sydd lawer yn uwch na blynyddoedd blaenorol ond gellir ei briodoli i raddau helaeth i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, ysgol Gyfrwng Cymraeg newydd a chynnydd sylweddol mewn cynigion megis storfeydd slyri, ynghyd â rhai cyfleusterau marchogaeth a chwaraeon, datblygiad un blaned a chynigion twristiaeth. Bydd yr Awdurdod yn dal i fonitro'r arwynebedd hwn.

Cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer caniatâd, caniatâd adeiladau rhestredig a chaniatâd Henebion Rhestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38 yn ystod rhan gynharaf cyfnod y Cynllun (ond ni chafodd ei ennyn ers hynny). Fodd bynnag, mae geiriad GN.38 yn golygu bod yn rhaid i gynnig gael ei ystyried yn un sy'n groes i'r polisi hyd yn oed os mai cyfyngedig yw'r effaith niweidiol a nodwyd. Bydd y geiriad hwn yn cael ei ailystyried ar adeg adolygu'r, er mwyn sicrhau mai dim ond y cynigion hynny sydd ag effaith niweidiol sylweddol y bernir eu bod yn groes i'r polisi.

Roedd y capasiti rheoli gwastraff newydd a ganiatawyd rhwng 01/04/21 a 31/03/21 yn 3.64 ha ar 4 safle:

21/0674/PA – Tir ar bwys Ailgylchu PG, Parc gwyn, Crymych (0.96 ha) (estyniad i hyd oes gweithrediadau – gollwng gwastraff anadweithiol

20/0191/PA – Tir yn cydffinio â Depo Clunderwen, Ffordd Nanhyfer, Glanrhyd (2.06 ha) (amrywiad i ddyddiad cychwyn ar gyfleuster adennill deunyddiau)

20/0841/DC – Tir i'r gorllewin o Greenacres Skip Hire, Dwrbach, Abergwaun (0.52 ha) (gollwng amod caniatâd am estyniad i gyfleuster ailgylchu presennol)

20/0376/PA - Highway House, Ferry Terrace, Doc Penfro (0.10 ha) (caniatawyd ar apêl) (amrywiad i ddau amod caniatâd cynharach ar safle trosglwyddo / ailgylchu gwastraff

Ym mhob achos, mae'r caniatadau newydd yn perthyn i gydsyniadau cynharach.


O ran y dangosyddion eraill sy'n gysylltiedig â gwastraff, mae'r ddau yn ymwneud â chynnydd wrth gyflenwi'r safle. Ym mhob achos, mae'r cyfleusterau disgwyliedig bellach wedi'u cyflawni ac felly mae gofynion y dangosyddion wedi eu bodloni.

¹⁰ Fferm solar 15.61 Ha (21/0986/PA), Ysgol Gynradd Gyfrwng Cymraeg 3.27 ha (21/0653/PA), a cheisiadau nodedig eraill yn cynnwys hyfforddiant chwaraeon a marchogaeth, estyniadau twristiaeth i Bluestone a Heatherton, siediau amaethyddol a lagwnau slyri/storfeydd maetholion niferus yn cael eu dylanwadu gan newidiadau ym Mholisïau Llywodraeth Cymru ar storio.

Atodiad 2 Niferoedd Cronnus y Tai a Gwblhawyd a'r Taflwybr Tai

Cyhoeddwyd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 ym mis Mawrth 2020. Mae hwn yn cyflwyno newid i'r ffordd y mae cyfanswm yr adeiladau cronrus sy'n cael eu cwblhau yn cael eu monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronrus a ragwelir. Mae'r llawlyfr yn nodi, ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddir cyn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, y bydd y niferoedd cronrus o adeiladau sy'n cael eu cwblhau yn cael eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cronrus cyfartalog a nodir yn y cynllun. Dylid cyflwyno hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol a dylid paratoi'r wybodaeth gyda chyfraniad gan grŵp Rhanddeiliaid Tai. Paratowyd y tabl isod gyda'r ymgysylltiad hwn.

Diagram A: Taflwybr Datblygu Tai

[illegible]

Asesiad o Gyflawniad Tai – Safleoedd a Neilltuwyd CDII1									2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33
Cyfeirnod	Cyfeirnod PA	Enw'r Safle	Anheddiad	Cyfansw m yr Unedau	Unedau ar ôl	Unedau ar ôl	Cat 1: U/C	Cat 2: Comp within 5 years												
003/00040	17/0936/RM	I'r gogledd o New Road	BEGELI	115	155	0	0	50	10	10	10	10	10	10	5	0	0	0	0	0
006/00003	LDP	Ar bwys Hafod	BLAENFFOS	10	10	0	0	10	0	0	5	5	0	0	0	0	0	0	0	0
007/LDP/01	18/1099/PA	I'r gogledd o Cilfan y Coed	BONCATH	17	17	10	3	4	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
008/LDP/01	LDP	I'r gogledd-orllewin o Lyndhurst Avenue	BROADMOOR	12	12	0	0	0	0	0	0	0	4	4	4	0	0	0	0	0
015/00022	LDP	I'r de o'r Plough Inn	CAERIW	49	26	4	2	20	5	5	5	5	0	0	0	0	0	0	0	0
152/LDP/01	15/0166/PA	Safle Depo	CLUNDERWEN	50	50	0	0	50	0	0	10	20	20	0	0	0	0	0	0	0
025/00028	LDP	I'r de o Tinkers Fold	COSHESTON	6	6	0	0	6	0	3	3	0	0	0	0	0	0	0	0	0
030/00043	18/0941/PA	Rhwng yr ysgol a Station rd	CRYMYCH	60	60	0	0	30	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
030/LDP/01	LDP	I'r dwyrain o Waunaeron	CRYMYCH	35	35	0	0	0	0	0	0	0	10	10	15	0	0	0	0	0
033/00035	09/0992/PA	I'r de-orllewin o'r ysgol	EGLWYSWRW	15	15	0	0	15	5	5	5	0	0	0	0	0	0	0	0	0
034/00165 & 034/00215	LDP	I'r dwyrain o & Maesgwynne Farm	ABERGWAUN	341	315	2	6	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
034/LDP/01	18/1001/PA	Hen Ysgol y Babanod	ABERGWAUN	18	18	4	0	7	7	7	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
040/00106	11/0506/PA	Scarrowscant	HWLFFORDD	106	39	0	1	39	10	10	18	0	0	0	0	0	0	0	0	0
040/00273 & 040/00274	18/1040/PA	Slade Lane Gogledd a De	HWLFFORDD	235	235	0	0	60	0	0	0	30	30	30	25	30	30	30	30	0
040/00275	LDP	Rhwng Shoals Hook Lane a'r Ffordd Osgoi	HWLFFORDD	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
041/LDP/01	LDP	Tir cyferbyn â Barrowgate	CROES CAS-LAI	6	6	0	0	0	0	0	0	0	0	4	4	4	4	0	0	0
044/00050	LDP	R/O Pill Road	HOOK	13	2	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
045/00008	11/0430/PA	Houghton Nursery	HOUGHTON	15	15	4	1	10	4	4	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0
046/00015	LDP	I'r dwyrain o Bentlass Road	HUNDLETON	32	15	4	2	9	5	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
047LDP/01	LDP	Cefn Beggars Roost	JEFFREYSTON	18	18	0	0	48	20	28	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
048/00038	LDP	Ar bwys Milford Road	JOHNSTON	120	120	0	0	60	30	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
050/00041	LDP	Tir i'r gorllewin o Ysgol Stepaside	CILGETI	19	19	12	5	2	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
050/00043	19/0412/PA	Tir wrth gefn Neuadd Trenewydd	CILGETI	26	26	0	0	0	0	0	0	0	0	10	16	0	0	0	0	0
050/00044	19/0504/PA	Tir i'r de o Kilvelgy Park	CILGETI	20	20	9	4	7	3	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
052/00011	LDP	I'r de o Cleggars Park	LLANDYFAI	55	55	0	0	0	0	0	0	0	0	20	20	15	0	0	0	0
053/00009	16/0082/DC	Court Meadow	TRELETERT	90	90	0	0	0	0	0	0	0	0	30	30	30	0	0	0	0
057/LDP/01	LDP	I'r gogledd o Neuadd y Pentref	LLANDDEWI EFELFFRE	12	12	0	0	12	3	3	3	3	0	0	0	0	0	0	0	0

060/LDP/01	LDP	Pwll Quarry Cross	LLANDISILIO	25	25	0	0	25	5	5	5	5	5	0	0	0	0	0	0	0
063/00024	LDP	Cyferbyn â The Kilns	LLANGWM	75	75	0	0	25	25	0	0	0	0	25	25	0	0	0	0	0
081/LDP//01	19/0055/PA	I'r gogledd-orllewin o'r Globe Inn	MAENCLOCHOG	30	20	6	5	9	5	4	0	0	0	10	10	0	0	0	0	0
085/LDP/01	LDP	I'r de o'r Woodturners	MATHRI	6	6	0	0	6	2	2	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0
086/00095	LDP	Hubberston i'r gorllewin o Silverstream	ABERDAUGLEDDAU	50	50	0	0	0	0	0	0	0	0	25	25	0	0	0	0	0
086/00129	18/0503/PA	Beaconing Field	ABERDAUGLEDDAU	149	123	9	10	55	15	20	20	0	0	68	0	0	0	0	0	0
086/00222	16/0409/PA	I'r de-orllewin o The Meadows	ABERDAUGLEDDAU	93	93	0	0	45	20	25	0	0	0	48	0	0	0	0	0	0
086/00318	LDP	Castle Pill	ABERDAUGLEDDAU	72	72	0	0	20	10	10	0	0	0	20	20	16	0	0	0	0
086/00223	LDP	Thornton Road	ABERDAUGLEDDAU	224	176	0	0	0	0	0	0	0	0	50	57	0	0	0	0	0
088/00077	10/0962/PA	Tir ar bwys Rushacre Farm	ARBERTH	54	54	0	1	53	0	0	25	28	0	0	0	0	0	0	0	0
088/00078	LDP	I'r gorllewin o Bloomfield Gardens	ARBERTH	89	89	0	0	89	20	20	20	29	0	0	0	0	0	0	0	0
093/00066	LDP	I'r dwyrain o Poppy Drive	NEYLAND	101	101	0	0	30	10	10	10	0	0	71	0	0	0	0	0	0
095/00144	LDP	I'r gogledd o Gibbas Way	PENFRO	70	70	0	0	50	20	20	10	0	0	20	0	0	0	0	0	0
095/00144	LDP	I'r de o Gibbas Way	PENFRO	98	2	0	2	0	0		0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
095/00147	LDP	Ar bwys Long Mains a Monkton Priory	PENFRO	139	139	0	0	139	0	50	50	39	0	0	0	0	0	0	0	0
095/00153	LDP	Ar bwys Monkton Swifts	PENFRO	118	118	0	0	40	0	0	0	20	20	0	0	0	0	0	0	0
096/00233	LDP	I'r dwyrain o Hill Farm	DOC PENFRO	63	63	0	0	40	20	20	0	0	0	23	0	0	0	0	0	0
096/00238	LDP	I'r gogledd o Pembroke Road	DOC PENFRO	98	98	0	0	40	20	20	0	0	0	58	0	0	0	0	0	0
097/LDP/02	LDP	Penally Heights	PENALUN	11	11	0	0	8	0	4	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0
097/LDP/01	LDP	I'r gogledd o The Paddock	PENALUN	8	8	6	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
099/00052/099/LDP/01	14/0270/PA	Tir ar bwys Coppins Lodge	PENTLEPOIR	49	3	0	3	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
108/LDP/01	LDP	Cyferbyn â Bro Dewi	CAS-MAEL	6	6	0	0	6	3	3	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
108/LDP/02	LDP	I'r gorllewin o Awelfa	CAS-MAEL	12	12	0	0	12	4	4	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0
113/LDP/01	LDP	I'r de o Robeston Court	LLANWATHEN	14	14	0	0	14	4	4	4	2	0	0	0	0	0	0	0	0
114/LDP/01	LDP	I'r dwyrain o Pilgrims Way	Y GARN	44	44	0	0	44	10	10	10	14	0	0	0	0	0	0	0	0
116/LDP/01	LDP	Cyferbyn â The Glades	RHOSFARCED	13	13	0	0	13	5	5	3	0	0	0	0	0	0	0	0	0
119/LDP/01	LDP	I'r dwyrain o Hill Lane	SIMPSON CROSS	11	11	0	0	11	5	6	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
120/00018	LDP	I'r gogledd-orllewin o Wesley Way	SPITTAL	22	22	0	0	22	5	5	5	7	0	0	0	0	0	0	0	0
122/00035	LDP	Estyniad Awel y Môr	LLANDUDOCH	33	33	0	0	33	10	10	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0
123/LDP/01	LDP	I'r gogledd o Parsons Grees	ST FLORENCE	26	26	3	2	21	5	5	5	6	0	0	0	0	0	0	0	0

132/LDP/01	18/0461/PA	I'r de o Gyffordd Boars Head	TREDEML	28	28	8	1	19	10	9	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
135/00004	LDP	I'r gogledd o Bulford Road	TIERS CROSS	23	23	0	0	23	10	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
149/LDP/01	LDP	Cyferbyn Haul u Fryn	CAS-BLAIDD	30	30	0	0	15	5	5	5	5	5	5	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm				3379	3049	83	50	1346	386	402	256	228	104	541	256	95	34	30	30	0

16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogi	G	G	G	G	G	G	G	G	G
17. Diogelu ansawdd a maint y pridd	G	G	G	G	G	G	G	G	G
18. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth	G	A	A?	A?	A	A	A	A	R
19. Gwarchod a gwella'r dirwedd a'r dreftadaeth ddaearegol	G	G	G	G	G	G	G	G	G
20. Annog dyluniad lleol o ansawdd da sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig	G	G	G	G	G	G	G	G	G
21. Amddiffyn a gwella'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol	G	G	G	G	G	G	G	G	G

Amcanion yr AoG	Dangosyddio n posibl yr AoG	Data	Sylwadaeth
1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys	% y boblogaeth 65+	Data cyfrifiad 2021: % o boblogaeth Sir Benfro 65 a throsodd = 26.1% (21.8% yn 2011, o gymharu ag 18.4% a 21.3% yng Nghymru yn 2011 a 2022 (SYG, 2021) 19.2% yn Sir Benfro a 17.39% yng Nghymru yn 2001 (SYG, 2001). Mae data cyfrifiad heb newid.	Mae Cyfrifiad 2021 wedi dangos bod y canran o'r boblogaeth dros 65 oed wedi cynyddu o 4.3% mewn 10 mlynedd. Mae rhai canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi'u cyhoeddi, fodd bynnag nid yw pob set ddata ar gael eto. Mae cyfanswm poblogaeth Sir Benfro wedi cynyddu o 122,439 yn 2011 i 123,400 yn 2021 (Cyfrifiad 2021). Nid yw'r CDLI yn cael dylanwad uniongyrchol ar strwythur y boblogaeth. Mae'r CDLI yn darparu ar gyfer tai a mynediad at gyflogaeth o ansawdd da a allai gydbwysu poblogaeth Sir Benfro sy'n heneiddio. Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG
2. Hyrwyddo iechyd a llesiant pobl drwy ffordd o fyw iach a mynediad at ofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd glân ac iach.	- Mynediad at wasanaethau allweddol - Cyfanswm nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol y flwyddyn - Salwch hirdymor - Hygyrchedd mannau gwyrdd lled-naturiol	Sir Benfro sydd â'r drydedd ganran fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd ar gyfer y parth Mynediad, yn seiliedig ar fynediad at wasanaethau allweddol ar y bws a/neu ar droed (Asesiad Anghenion Sengl Sir Benfro, 2012). Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig ar y ffordd 2021 = 52 (2020 = 32 2018 = 63 (54 yn 2013, 60 yn 2014, 61 yn 2015, 62 yn 2016, 65 yn 2017), o gymharu â 865 (1,144 yn 2013, 1,263 yn 2014, 1,186 yn 2015, 975 yn 2016, 930 yn 2017, 992 yn 2018, 1057 yn 2019, 729 yn 2020) yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod (Ystadegau Llywodraeth Cymru, 2022). Wedi'u cyfyngu llawer gan broblem iechyd/anabledd = 16% yn Sir Benfro (15% yn 2011/12, 16% yng Nghymru yn 2012 a 15% yn 2014+15) (Arolwg Iechyd Cymru, 2014+15). Iechyd cyffredinol yn weddol/yn wael 20% yn Sir Benfro (o gymharu â 19% yn 11/12), 19% yng Nghymru (Arolwg Iechyd Cymru 2014/15).	Sir Benfro sydd â'r drydedd ganran fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd ar gyfer y parth Mynediad, yn seiliedig ar fynediad at wasanaethau allweddol ar y bws a/neu ar droed (Asesiad Anghenion Sengl Sir Benfro, 2012). Mae nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig ar y ffordd yn Sir Benfro yn 2021 wedi cynyddu'n sylweddol ers yr AMB diwethaf (Ystadegau Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag, roedd y flwyddyn adrodd flaenorol yn ystod pandemig y coronafeirws ac felly nid yw'n debygol bod 2020 yn gynrychiadol. Mae 16% o bobl yn Sir Benfro yn nodi eu bod wedi'u cyfyngu llawer gan broblem iechyd/anabledd (15% yng Nghymru) (Arolwg Iechyd Cymru, 2015). Mae 20% o bobl yn nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn eithaf da/yn wael yn Sir Benfro a 19% yng Nghymru (Arolwg Iechyd Cymru, 2015). Daeth Arolwg Iechyd Cymru i ben yn 2015. Adroddir ar iechyd a ffyrdd o fyw cysylltiedig gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae data ar iechyd cyffredinol yn awr ar gael gan fyrdau iechyd yn unig ac ni ellir eu cymharu ag Arolwg Iechyd Cymru. Bydd diweddariadau'r dyfodol yn edrych ar Afiechydon ac Iechyd Plant (2019). Mae data ar gael gan y bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn Sir Benfro), ond nid yw'n gymharol dros y cyfnod hwn i adrodd data blaenorol AC. Collwyd 15.4ha (15.6 hectar yn 2020/21) o dir glas i waith datblygu na ddyrannwyd yn y Cynllun. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r maes hwn. Mae'r CDLI yn cyfeirio datblygiadau tuag at aneddiadau gydag amrywiaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae polisi GN.3 ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu ar gyfer cyllid seilwaith ar gyfer mannau agored lle y bo'n briodol. Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG

Amcanion yr AoG	Dangosyddio n posibl yr AoG	Data	Sylwadaeth
3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sgiliau a'r sylfaen wybodaeth	- Cyfran y bobl ifanc 15/16 oed gyda throthwy Lefel 2 (5+ TGAU gradd A*-C) % yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau	62.4% o bobl ifanc 15/16 oed gyda Trothwy Lefel 2 yn Sir Benfro yn 2017/2018, o gymharu ag 67% yng Nghymru (78.1% yn Sir Benfro, 77.8% yng Nghymru yn 2012/13, ac 83% yn Sir Benfro, 84.1% yng Nghymru yn 2014/2015, 84.5% yn Sir Benfro, 84% yng Nghymru yn 2015/16), 66% yn Sir Benfro, 67% yng Nghymru yn 2016/17 (StatsCymru, 2018). 7.5% o oedolion (16-64) heb gymwysterau yn Sir Benfro yn 2021 (13.8% ym mis Rhagfyr 2013, 11% yn 2014 a 2015. 11.7% yn 2016, 9% yn 2017, 8.8% yn 2018, 9.3% yn 2019, 5.7% yn 2020), mae hyn wedi gostwng ers 2004 pan gafwyd canran o 15.9%. 8.3% yng Nghymru yn 2021 (8.6% yn 2018, 8.7% yn 2017, 9.6% yn 2016, 10.5% yn 2015, 10.0% yn 2014, 10.6% yn 2013) (Nomis, 2022).	Mae nifer y bobl ifanc 15/16 oed sydd â chymwysterau Trothwy Lefel 2 ychydig yn is na ffigur Cymru (StatsCymru, 2018) ac mae canran yr oedolion heb gymwysterau wedi gostwng ers 2004 (Nomis, 2022) ond mae'n dal i fod yn is na ffigur Cymru (7.5% yn Sir Benfro a 8.3% yng Nghymru yn 2022, a 15.9% yn Sir Benfro yn 2004). Gwelwyd gostyngiad yn y canrannau yng Nghymru a Phrydain Fawr a Sir Benfro eleni. O 2019 ymlaen cyflwynodd LIC fesurau perfformiad newydd nad ydynt wedi'u diweddarau ers 2019. Mae LIC wedi atal gofynion adrodd ar ysgolion dros dro i leihau'r baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Nid yw'r Amcan hwn yn yr AoG yn ymwneud yn uniongyrchol â pholisi defnydd tir ond mae'r CDLI yn cyfrannu drwy ganolbwyntio datblygiadau mewn aneddiadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn bodoli eisoes, gan gynnwys cyfleusterau addysg a mynediad at gyflogaeth o ansawdd da. Mae'r CDLI hefyd yn nodi dyraniadau defnydd tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys addysg. Mae'r CDLI hefyd yn nodi tir ar gyfer cyfleusterau addysgol fel dyraniadau (GN.33 Cyfleusterau Cymunedol). Gallai canllawiau ffosffadau CNC effeithio ar gyflawni ysgolion newydd. Mae diffyg darpariaeth addysg uwch sylweddol yn y Sir yn debygol o effeithio ar y ffigurau hyn. Cam Gweithredu: Parhau i fonitro Amcan yr AoG
4. Lleihau'r angen i deithio i'r eithaf ac annog dulliau trafndiaeth cynaliadwy	- Dull teithio i'r gwaith, % sy'n teithio i'r gwaith yn y car - Teithiau ar drafndiaeth gyhoeddus - Hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus - Cyswllt â mesurau monitro'r Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol	Mae nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith yn y car yn Sir Benfro wedi cynyddu o 57.45% yn 2001 i 60.96% yn 2011 (Cyfrifiad, 2011). Trên = 0.47%, Bws = 2.88, ar droed = 9.38% Bu cynnydd yng Nghymru o 61.23% i 63.77% rhwng 2001 a 2011. Canran y bobl sy'n gweithio gartref yn 2001 yn Sir Benfro = 16.43% (9.72% yng Nghymru), o gymharu â 17.72% yn 2011 (10.64% yng Nghymru) (Cyfrifiad, 2011). Mae patrymau teithio (2015) yn nodi mai teithiau i'r gwaith sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o deithiau yn y car (Cynllun Trafndiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru, 2015). Mae Gorsafoedd Johnston, Cilgeti ac Abergwaun/Wdig wedi gweld gostyngiadau sylweddol mewn teithwyr yn 20/21 (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd 2022)	Mae nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith yn y car yn Sir Benfro wedi cynyddu o 57.45% yn 2001 i 60.96% yn 2011 (Cyfrifiad, 2011). Yng Nghymru mae hyn wedi cynyddu o 61.3% yn 2001 i 63.77% yn 2011. Nid oes unrhyw ddata wedi'u diweddarau ar gyfer 2020/2021. Mae rhai data Cyfrifiad 2021 wedi'u rhyddhau, fodd bynnag, bydd dadansoddiadau manwl ar gael yn y flwyddyn. Mae canran y bobl sy'n gweithio gartref neu gartref yn bennaf wedi cynyddu ac mae dros 6% na chyfartaledd Cymru erbyn hyn (Census, 2011). Bydd y ffigur hwn yn llawer uwch nawr oherwydd y pandemig coronafeirws yn 2020/21. Disgwylir ffigurau Cyfrifiad 2021 yn y flwyddyn nesaf. Arolygwyd patrymau teithio yn 2014 ar gyfer Cynllun Trafndiaeth ar y Cyd (CTC) De a Gorllewin Cymru (DGC) (2015). Roedd y rhan fwyaf o deithiau a wnaed gan y sawl a arolygwyd ar gyfer gwaith neu gymudo. Mae llawer o deithiau o dan 5km ar gyfer teithio i'r gwaith, felly cynigir camau gweithredu i annog teithio llesol i'r gwaith, neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus fel rhan o'r Cynllun Trafndiaeth ar y Cyd ar gyfer De a Gorllewin Cymru (2015), roedd cynllun trafndiaeth lleol ar y cyd 2015-2020 yn cynnwys dyheadau tymor canolig a hir ar gyfer trafndiaeth yn y sir hyd at 2030. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y teithwyr yng Ngorsafoedd Johnston, Cilgeti ac Abergwaun/Wdig ers 2017/18 gyda nifer sylweddol is yn 2020/21 o ganlyniad i'r pandemig (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd 2022). Mae'r CDLI yn canolbwyntio datblygiadau mewn aneddiadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn bodoli eisoes. Ond oherwydd natur wledig y Sir, derbynnir y bydd nifer uchel o bobl yn defnyddio ceir i deithio i'r gwaith. Cam Gweithredu: parhau i fonitro Amcan yr AoG
5. Darparu amrywiaeth o dai o safon uchel,	Cyflenwad tir ar gyfer tai	4.5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai (16-17).	Nid yw lefel sbarduno'r cyflenwad tai bellach yn berthnasol. Bellach mae'r taflwybr ar gyfer tai yn sail ar gyfer monitro.

Amcanion yr AoG	Dangosyddio n posibl yr AoG	Data	Sylwadaeth
